**Eco'r Wyddfa – Mawrth 2016**

Plant Bl 4 a 5 oedd yn gyfrifol am gynnal gwasanaeth Dydd Gŵyl Dewi diddorol iawn yn yr ysgol eleni. Cawsom hanes Dewi Sant a thraddodiadau'r Cymry wrth ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Fel y gwelwch o'r lluniau, roedd y plant wedi gwisgo yn eu dillad traddodiadol a chrysau Cymru.




CYMRU
WALES

# <u>Dona Direidi a Tara Tan Toc</u>

Roedd y stori **Dwisio Pi-Pi** yn dweud wrthym ein bod ni yn blant mawr yn defnyddio’r toiled yn rheolaidd ac i beidio gwneud fel Arfon a phi-pi yn y gwpan!




sky
Lois Regan
David Brailsford

## Arfon Wyn a Richard Synnott o’r Moniars



Cawsom gadw curiad gyda’r caneuon drwy glapio a tharo ac ysgwyd gwahanol offerynnau. Roedd pawb yn mwynhau eu hunain ac wrth eu boddau yn gwrando ar Richard yn chwarae’r sacsoffon ac Arfon Wyn yn strymio ar y gitar.



# **Angharad Tomos**

Daeth yr awdures Angharad Tomos atom i drafod cymaint o hwyl yw ysgrifennu storiau. Dyma un o'i chymeriadau, Rala Rwdins yn ogof Tan-Domen.





# **Dafydd Iwan**

Roeddem yn ffodus iawn o gael cyfarfod Dafydd Iwan.
Dywedodd pa mor bwysig oedd cadw'r iaith Gymraeg yn fyw.




ECO YSGOL WERDD
YSGOL IACH

**Huw a Bethan Roberts**

Dawnsio gwerin – ffidil, telyn deires, crwth, pibgorn a dillad Cymraeg.




Lois Regan
Enwogion Lleol.
David Brailsford

## Mr Parry – llwyau caru

Cawsom glywed am hen arferiad Cymreig o wneud a rhoi llwy garu i’ch cariad gan Mr Parry.





**Annette Bryn Parri a Dylan Cernyw – Piantel**





**Morgan Tomos**




Tryfan a Deion gyda llyfrau Alun yr Arth gyda’r awdur Morgan Tomos. Bu’n ddigon caredig i arwyddo’r llyfrau iddynt. Bu’n siarad, sgwrsio a thynnu lluniau gyda holl blant y Cyfnod Sylfaen.


Arth

**<u>Nia Gruffydd o'r llyfrgell yng Nghaernarfon yn adrodd straeon i'r plant ieuengaf.</u>**




**Cawsom stori am y 3 arth yn byw yn y goedwig….**




**…. ac am y wlithen oedd eisiau bod yn falwoden.**

**Mathew Guy**

Croesawyd cyn-ddisgybl i'r ysgol i ddangos i'r plant sut i wneud teisennau Pasg.  Mae Mathew yn enwog iawn yn dilyn ymddangos ar raglen Masterchef ac ennill Chefs on Trial gyda Alex Polizzi ar y teledu.  Cafwyd llawer iawn o hwyl yn ei gwmni a pharatôdd 160 o deisennau a bisgedi yn ystod y bore gyda'r plant yn ei gynorthwyo i dorri dwsinau o wyau a chymysgu'r cymysgedd gyda'u dwylo.

Chwarae teg i Mathew, daeth yn ôl am y prynhawn cyfan i gynorthwyo'r plant i addurno 160 o deisennau a bisgedi gyda hufen, siocled plaen, siocled llefrith, icing, tiwbiau addurno ac wyau Pasg ar ben y cyfan!!

Cafwyd diwrnod arbennig yn ei gwmni.

Diolch yn fawr iawn Mathew.














YSGOL



**Anna Pritchard**

Mae'r artist lleol, Anna Pritchard, wedi bod yn gweithio gyda holl blant yr ysgol yn datblygu eu sgiliau creadigol a'u hiaith.

Ychwanegwn luniau ohoni'n gweithio gyda'r plant ieuengaf y mis yma.




hanner
llawn
dŵr


Briciau
Sticl
seawhite
OF BRIGHTON
OUTER
Red Label
Superior